GISDA
CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE



GWANWYN 2024

# NEWYDDLEN

## CROESO I GYLCHLYTHYR GWANWYN 2024 GISDA!

Wrth i'r dyddiau dyfu'n hirach, rydym yn gyffrous i rannu beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen ym myd GISDA yn ystod y misoedd diwethaf. Rydyn ni wedi bod yn brysur yn cefnogi ein pobl ifanc ac yn lledaenu'r gair am ein gwasanaethau, ac rydym yn edrych ymlaen at rannu'r straeon gyda chi!

## GISDA YN DATHLU DERBYN GWOBR AM RAGORIAETH YN Y GYMRAEG!

Cymraeg

Rydym wrth ein boddau gallu cyhoeddi ein bod wedi ennill gwobr 'Rhagoriaeth yn y Gymraeg' yng Ngwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid a gynhaliwyd ar yr 22ain o Chwefror yn Venue Cymru, Llandudno. Mae'r wobr hon yn cydnabod ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cefnogol i bobl ifanc yn ddwyieithog.

Fel yr unig elusen o'r fath yng Nghymru sydd yn cynnig ein holl wasanaethau yn ddwyieithog, rydym yn credu'n gryf y dylai pob person ifanc gael y dewis i dderbyn cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyma yw eu dewis nhw. Rydym yn deall bod teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus yn allweddol i bobl ifanc wrth ofyn am gymorth, ac mae gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf yn allweddol er mwyn adeiladu perthynas dda a sicrhau profiad cadarnhaol.

Hefyd, fel sefydliad sy'n rhoi bri i'r Gymraeg rydym yn falch bod pob aelod o staff yn medru siarad Cymraeg ac ein bod yn gweithredu'n fewnol yn y Gymraeg. Rydym yn darparu adnoddau a chefnogaeth i staff sydd eisiau dysgu neu wella eu Cymraeg, gyda chymorth ein Cydlynydd Iaith Gymraeg penodedig.

Mae'r wobr hon yn uwch oleuo ein hymrwymiad i'r Gymraeg a'n dealltwriaeth o sut mae'r iaith yn medru grymuso pobl ifanc. Hoffem ddiolch i'n staff gweithgar, ein pobl ifanc anhygoel a'n cefnogwyr anhygoel.

Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2023
Youth Work Excellence Awards 2023


















## DECHRAU PRYSUR I 2024

Rydym wedi derbyn sawl ymweliad pwysig â'n prosiectau yn ystod misoedd cyntaf 2024. Ym mis Chwefror, fe wnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS ymweld â'r datblygiad arloesol ar y Maes yng Nghaernarfon, sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd. Roedd gan y Gweinidog ddiddordeb mawr yn ein gwaith fel sefydliad ac roedd potensial y prosiect i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau ifanc yn amlwg iddi. Fe ganmolodd y ffordd fydd y Maes yn gallu darparu llety, cyfleoedd, hyfforddiant a chefnogaeth i bobl ifanc ynghyd â hwb cymunedol bywiog a gofod swyddfa i staff GISDA.

Cafodd ein Hwb FEDRA'I ymweliad gan y Dirprwy Weinidog Julie Morgan AS, ynghyd â chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru, ym mis Chwefror. Roedd yr ymweliad yn gyfle gwerthfawr i arddangos gwasanaethau'r prosiect, sy'n cynnwys cwnsela cyfrinachol, gweithdai therapiwtig, a gweithgareddau cymdeithasol. Cymerodd ein gwesteion ran mewn sesiwn therapiwtig gwneud cardiau Dydd San Ffolant ochr yn ochr â'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi. Mae sesiynau creadigol fel y rhain yn arbennig o effeithiol wrth helpu pobl ifanc i ymlacio ac i fod yn agored am eu heriau.

Ym mis Mawrth, croesawyd Liz Saville-Roberts, AS Plaid Cymru dros Ddwyfor Meirionnydd, Hywel Williams, AS Plaid Cymru Arfon, a Rhun Ap-Iorwerth, arweinydd Plaid Cymru, am daith o amgylch ein datblygiad Y Maes. Roedd eu hymweliad yn gyfle i drafod effaith ehangach y prosiect ar ieuenctid a chymuned ehangach Caernarfon. Mynegwyd eu cefnogaeth gref i genhadaeth a gwaith GISDA, ac edrychwn ymlaen at eu hymweliad yn ôl i weld y caffi a'r hwb aml-bwrpas unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd eu hamser i ymweld â ni a dysgu mwy am waith GISDA.

## ARTISTIAID IFANC GISDA I RHOI TRAWSNEWIDIAD CREADIGOL I TAN Y BONT

Mae pobl ifanc GISDA wedi bod yn brysur yn gwneud eu marc ar Gaernarfon fel rhan o brosiect newydd cyffrous CANFAS, a reolir gan Galeri Caernarfon. Nod y fenter hon yw rhoi bywyd newydd i gorneli anghofiedig o Gaernarfon drwy eu trawsnewid â gosodiadau celf sy'n adlewyrchu hunaniaeth a hanes unigryw'r dref.

Mae pobl ifanc greadigol GISDA, ynghyd ag artistiaid lleol, yn arwain y ffordd yn ardal Tan y Bont. Bydd eu celf yn deyrnged fywiog i glwb cerdd Canolfan Tan y Bont, gan dynnu ysbrydoliaeth o'r straeon ac atgofion y clwb. Yn ystod y broses, mae'r bobl ifanc wedi mwynhau sesiynau creadigol gyda'r artistiaid Rhys Grail, Lleucu Non, Lynwen Lloyd a Ffion Pritchard wrth gydweithio ar y gwaith celf derfynol.


Bydd y gosodiad yn cael ei ddadorchuddio ar Ebrill 20fed. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau anhygoel gwaith caled, creadigrwydd a chydweithio pobl ifanc GISDA!









# CROESO CYNNES I GLAN, EIN CYDLYNYDD IAITH GYMRAEG!




Mae'n bleser gennym gyflwyno Glain Hughes, a ymunodd â GISDA ym mis Ionawr 2024 fel ein Cydlynydd Iaith Gymraeg! Mae'r rôl newydd hon yn cael ei hariannu drwy ARFOR 2, menter ar y cyd rhwng siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr sydd yn anelu i gryfhau cymunedau Cymraeg drwy gryfhau'r economi.

Mae gallu ymddiried a siarad yn agored gyda rhywun yn hollbwysig i bobl ifanc sydd yn dod atom ni am gymorth. Gyda'r rôl yma rydym am allu parhau i ddatblygu ein darpariaeth Cymraeg, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn medru cael mynediad at ein gwasanaethau yn yr iaith sydd orau ganddyn nhw.




Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Mae'r Gymraeg yn ganolog i werthoedd craidd GISDA felly rydym yn hynod o falch ein bod wedi derbyn arian i greu'r rôl yma yn y cwmni. Rydym yn edrych ymlaen at fedru cefnogi staff i ddysgu Cymraeg a sicrhau bod ein hymrwymiad i iaith a diwylliant Cymraeg yn parhau.

**Mae GISDA yn falch ein bod yn darparu gwasanaethau a gofodau cwbl ddwyieithog i bobl ifanc yng Ngwynedd. Dyma flas o'r gwaith sydd ar y gweill:**

- Rydym yn barod yn elwa o gael gweithlu o siaradwyr Cymraeg ac rydym yn cefnogi staff drwy hyfforddiant a chynlluniau iaith personol.
- Rydym yn dathlu digwyddiadau fel Dydd Miwsig Cymru a sesiynau ysgrifennu creadigol gyda'r bobl ifanc - digwyddiadau sydd yn dangos cyfoeth a chyffro diwylliant Cymraeg, er mwyn dangos bod yr iaith yn fwy nag iaith gwaith ac ysgol yn unig.
- Mae'r prosiect LHDTC+ wedi datblygu adnoddau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg- adnodd unigryw sydd yn ein galluogi i gefnogi mudiadau eraill drwy gynnig hyfforddiant LHDTC+ arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yn yr Hwb a'r Caffi ar y Maes rydym yn gweithio i wneud y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy yno er mwyn creu gofod yn un sydd yn adlewyrchu gwerthoedd y cwmni ac yn hyrwyddo iaith a diwylliant yr ardal i ymwelwyr.




FEDRA'i
Law yn llaw at Iechyd meddwl

# CYFARFOD Y RHEOLWR PROSIECT

Rydym yn falch o gyhoeddi adran newydd i'r newyddlen - 'Cyfarfod Rheolwyr Prosiect!' Ym mhob rhifyn fyddwn yn sgwrsio gydag un o reolwyr prosiectau GISDA er mwyn dysgu mwy am eu gwaith. I ddechrau dyma sgwrs gyda Gruff Williams sydd yn arwain ein prosiect FEDRA'I (ICAN).

## DYWEDA WRTHYM NI AM FEDRA'I (ICAN)

Mae FEDRA'I yn cynnig ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i bobl ifanc yng Ngwynedd (14-25 oed) sydd yn gwynebu heriau cymedrol gyda'u hiechyd meddwl. Mae'r prosiect yn ategu gwasanaethau'r GIG gyda'r bwriad o wasanaethu'r rhai sydd fel arall mewn perygl o ddisgyn drwy'r craciau. O'r hybiau pwrpasol yng Nghaernarfon, Pwllheli a Bangor rydym yn cynnig:

- Sesiynau galw fewn anffurfiol gyda chysylltydd FEDRA'I ble mae pobl ifanc yn gallu cael sgwrs dros baned am unrhyw beth sydd ar eu meddwl.
- Galwadau ffôn rheolaidd gydag ein gwirfoddolwyr hyfforddedig.
- Cwnsela cyfrinachol 1:1 sydd wedi'i ddarparu gan un o'n 5 o gwnselwyr dan hyfforddiant.

- Gweithdai ar ystod eang o bynciau megis rheoli dyledion, meithrin perthnasau iach, problemau alcohol neu gyffuriau, cyflogadwyedd ac ymdopi â phrofedigaeth.
- Gweithdai celf ac ysgrifennu creadigol sydd yn annog pobl ifanc i fynegi eu hunain ac yn eu helpu i siarad am brofiadau neu deimladau anodd.
- Amryw o weithgareddau a dosbarthiadau yn cynnwys chwaraeon, garddio, cerdded a grwpiau i bobl ifanc â diddordebau arbennig er mwyn hybu rhyngweithio cymdeithasol a gwella llesiant.
- Cydweithio gyda gwahanol asiantaethau a gwasanaethau, er enghraifft rydym yn rhedeg sesiynau galw fewn gyda Therapydd Galwedigaethol.

Mewn achosion mwy cymhleth ble mae angen adnoddau a chefnogaeth ychwanegol, mae'r tîm yn gallu cysylltu pobl ifanc gyda'r gofal sydd fwyaf addas iddyn nhw.

**BETH WYT TI'N GWEITHIO ARNO AR HYN O BRYD?**

Mae 'na gysylltiad cryf rhwng mynegiant creadigol a llesiant meddyliol felly mae FEDRA'I hefyd yn cynnig rhaglen greadigol sef GISDA Creadigol. Wedi'i arwain gan arbenigwyr yn eu meysydd mae GISDA Creadigol yn darparu gofod saff a chefnogol i bobl ifanc archwilio eu creadigrwydd, gan roi hwb i'w hyder a'u hunan werth.

Hefyd, fe dderbyniodd FEDRA'I arian gan Gronfa Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd sydd wedi ein galluogi i gychwyn prosiect GISDACTIF. Rydym yn gweithio'n galed i roi cynllun mewn lle er mwyn darparu ystod eang o weithgareddau corfforol i bobl ifanc GISDA. Mae cadw'n heini yn hanfodol i gadw'n iach yn feddyliol felly mae hwn yn ddatblygiad pwysig.



**BETH WYT TI'N EDRYCH YMALAEN AMDANO YN 2024?**

Rwyf yn edrych ymlaen at weld ein prosiectau yn dod at ei gilydd, yn enwedig CANFAS a GISDACTIF. Mi fydd CANFAS yn gyfle arbennig i bobl ifanc weld ffrwyth eu gwaith caled yn cael ei arddangos ar strydoedd Caernarfon. Mi fydd hyn yn gyfle i ddangos eu sgiliau ond mi fydd hefyd yn dystiolaeth o beth sydd yn gallu cael ei gyflawni drwy gydweithio.

Mae GISDACTIF yn gyffrous iawn! Bydd y prosiect yma yn cynnig rhaglen unigryw a chyffrous gydag iechyd a lles pobl ifanc yn gwbl ganolog i'r cynllun. Dwi methu aros i gydweithio gyda chwmnïau lleol, staff GISDA a'r bobl ifanc eu hunain ar y prosiect yma, a chynnig cyfleoedd newydd a chyffrous i bawb sy'n rhan ohono.



**PA HERIAU YDYCH CHI'N EU GWYNEBU?**

Yr her fwyaf i ni ydy'r nifer o gyfeiriadau rydym yn eu derbyn i wasanaeth FEDRA'I. Mae hyn yn anffodus yn golygu bod gennym restr aros, sydd yn tanseilio pwrpas FEDRA'I yn y bôn, sef i gynnig cymorth sydd yn hawdd i'w gyrchu ac yn amserol.




**BETH SYDD YN DY YSBRYDOLI AM Y PROSIECTAU?**

Mae rheoli'r prosiectau yma'n fraint ac mae'r gwaith caled yn talu ar ei ganfed. Tra bod yr heriau o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl yn gallu bod yn rhwystredig, mae gweld yr effaith bositif mae gwaith caled ein staff yn cael ar fywydau ifanc yng Ngwynedd yn ysbrydoledig iawn. Mae gweld pobl ifanc yn magu hyder, dysgu sgiliau newydd ac arddangos eu talentau yn anhygoel.

# POBL IFANC GISDA I FYND AR DAITH ANHYGOEL I DDINAS EFROG NEWYDD!

Taith

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Yn ystod mis Ebrill, bydd grŵp o bobl ifanc o GISDA yn cychwyn ar antur anhygoel dros yr Iwerydd i ddysgu mwy am y gymuned LHDTC+ yn Efrog Newydd! Mae'r antur anhygoel hon, sydd yn bosib diolch i raglen Taith Llywodraeth Cymru, yn rhan o brosiect ehangach sy'n cymharu profiadau pobl ifanc LHDTC+ yng Nghymru, Efrog Newydd a Gwlad Pwyl. Ynghyd â staff GISDA, gan gynnwys rhai sy'n gweithio ar ein prosiect LHDTC+, bydd y bobl ifanc yn cael cyfle i gysylltu gyda'u cyfoedion yn y ddinas. Bydd y profiad gwerthfawr hwn yn eu galluogi i gymharu eu profiadau a chael dealltwriaeth o fywydau a heriau unigolion LHDTC+ ledled y byd.

Un o uchafbwyntiau'r daith fydd ymweliad â Chanolfan Ali Forney, y sefydliad mwyaf i bobl ifanc bregus LHDTC+ yn yr Unol Daleithiau. Yma, bydd ein pobl ifanc yn cael cyfle i ddarganfod yr adnoddau a'r rhaglenni a gynigir gan y sefydliad, a chael mewnwelediad gwerthfawr i sut y caiff pethau eu gwneud a'i gymharu â'r hyn sy'n digwydd adref yng Nghymru. Hefyd, bydd ymweliadau â sefydliadau tebyg, ac, wrth gwrs, cyfle i'r grŵp weld rhai o adeiladau eiconig Efrog Newydd.

Yn GISDA, rydym yn angerddol dros greu byd lle mae pob person ifanc, waeth bwy ydynt, yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi, ac yn cael eu grymuso, ac rydym yn hynod gyffrous i weld ein pobl ifanc yn cychwyn ar yr antur cyffrous yma. Rydym yn brysur yn cwblhau'r cynlluniau ar gyfer y profiad bythgofiadwy hwn a fydd yn rhoi cyfle iddynt ddarganfod dinas newydd, ennill hyder, ehangu eu dealltwriaeth o'r byd a chreu atgofion a fydd yn para am oes. Rydym yn hynod ddiolchgar i Taith am eu cymorth, sydd wedi gwneud y daith trawsnewidiol hon yn bosibl.

Cadwch lygaid ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol wrth i ni rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r straeon o'r daith! **#GISDANYC**

THE ALI FORNEY CENTER






## MAE BALCHDER YN DOD I GAERNARFON!

**Dyma ddyddiad i'ch dyddiadur! Mehefin 29ain - Mae dathliad Balchder yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon! Ymunwch â ni am ddiwrnod llawn cariad, dathlu a chymdeithasu. Dyma beth i'w ddisgwyl:**

**Parêd:** Byddwch yn barod i orymdeithio drwy strydoedd Caernarfon, dangos eich gwisgoedd lliwgar a rhannu cariad a chymhwysiad.

**Adloniant:** Mwynhewch gerddoriaeth byw a gwledd o adloniant drwy gydol y dydd. Dewch i ddawnsio, canu a dathlu gyda ffrindiau hen a newydd!

**Stondinau:** Dysgwch am fudiadau, prosiectau a chefnogaeth ar gael yn eich ardal.

**Cyfleoedd i Wirfoddoli:** Wyt ti eisiau bod yn rhan o'r diwrnod arbennig yma? Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr brwdfrydig er mwyn sicrhau llwyddiant Balchder Caernarfon 2024. Os oes gen ti ddiddordeb yn trefnu digwyddiadau, neu eisiau hyrwyddo'r diwrnod mae 'na rôl i chdi!

**Os hoffet ddysgu mwy, cysylltwch drwy e-bostio gisda@gisda.co.uk**






GISDA

# NEWYDDION DIWEDDAR

### GISDA YN DERBYN RHODD GAREDIG GAN GWMNI SCOTTISH POWER

Rydym yn hynod o ddiolchgar ein bod wedi derbyn 15 o liniaduron gan gwmni Scottish Power! Roedd y gliniaduron wedi'i rhoi fel rhan o gynllun gwych sydd nid yn unig yn cefnogi elusennau fel GISDA, ond hefyd yn rhoi bywyd newydd i dechnoleg a fysai fel arall yn cael ei daflu. Hoffem ddiolch i Dylan Wyn Herbert, Pennaeth Adnoddau a Chynllunio yn y depo yng Nghaernarfon am ein henwebu ac i Andy Sturgeon am ddod â nhw'r holl ffordd o Lerpwl! Pobl ifanc GISDA fydd yn derbyn y gliniaduron, a fydd yn eu galluogi i gael mynediad at adnoddau addysgiadol, hyfforddiant, chwilio am swyddi a mwy.




### HER SCARFF VOICES FROM CARE CYMRU

Mae tîm GISDA yn Blaenau Ffestiniog wedi ymuno â Her Sgarff Voices from Care Cymru. Mae cannodd o bobl wedi gwau sgwariau i greu sgarff enfawr sydd yn symbol o gynhwysiad a chynhesrwydd i blant mewn gofal (7,983 o sgwariau! Un i gynrychioli pob plentyn mewn gofal). Mi fydd y sgarff yn cael ei lapio o amgylch y Senedd er mwyn codi ymwybyddiaeth waith yr elusen. Diolch yn fawr i gymuned Blaenau Ffestiniog am eu cyfraniad!



### GISDA AR Y LON

Mae hi wedi bod yn brysur i GISDA yn ddiweddar gyda llawer o ddigwyddiadau, o Ffeiriau Swyddi, Ffair y Glas ym Mangor, digwyddiadau rhwydweithio a gweithdai. Mae wedi bod yn wych cael mynd allan i gyfarfod unigolion a rhannu gwybodaeth am waith GISDA.



## DIOLCH O GALON I'N RHODDWYR ANHYGOEL!

Rydym mor ddiolchgar am haelioni ein rhoddwyr. Mae'ch cefnogaeth chi yn ein galluogi i barhau gydag ein gwasanaethau hanfodol a phrosiectau sy'n grymuso pobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn botensial. Os ydych yn rhoi unwaith neu'n dewis i gyfrannu'n fisol, mae pob un yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc. Rydym yn deall bod rhai pobl yn ffafrio gwneud cyfraniad yn ddienw, ond rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad yr un fath.



### DYMA RHAI O FFYRDD MAE EICH CYFRANIAD YN GWNEUD GWAHANIETH:

**Gofodau diogel:** Mae cyfraniadau yn ein galluogi i greu a chynnal mannau diogel a chroesawgar, megis ein hosteli a'r hybiau, ble mae pobl ifanc sydd yn gwynebu digartrefedd a heriau eraill yn gallu dod i gael noddfa a chefnogaeth.
**Prosiect Cefnogaeth Hanfodol:** Mae eich haelioni yn ariannu prosiectau megis FEDRA'I a'r Clybiau Ieuenctid LHDTC+. Mae'r prosiectau yma yn cynnig man diogel, cefnogaeth gan gyfoedion ac adnoddau gwerthfawr.
**Grymuso Rhieni Ifanc:** Mae cyfraniadau yn cyfrannu tuag at ein prosiect rhieni ifanc sydd yn cefnogi mamau a thadau ifanc yng Ngwynedd.
**Cysylltu pobl ifanc gyda chyfleoedd:** Mae cyfraniadau yn ein galluogi i roi pobl ifanc ar lwybrau cadarn i addysg, cyflogaeth, a chyfleoedd iddynt ddatblygu'n bersonol hefyd.





**Barod i wneud gwahaniaeth? Cyfranna heddiw er mwyn sicrhau bod cefnogaeth hanfodol yn parhau i bobl ifanc! Sganiwch y cod QR i ymweld â'n tudalen JustGiving.**

